# Y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Prif Negeseuon a Chamau Gweithredu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | Y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig | | | **Dyddiad** | 02.07.2018 |
| **Rhif y Cyfarfod** | 12 | **Dechrau** | 14:00 | **Diwedd** | 16:40 |
| **Yn bresennol** | Graham Rees (Llywodraeth Cymru – Cadeirydd), Louise George (Llywodraeth Cymru), Richard Lowcock James (Llywodraeth Cymru), Trevor Theobald (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyngor Sir Penfro), Maggie Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynghorydd), Kate Griffiths (Cyfoeth Naturiol Cymru), Alison Palmer Hargrave (ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – cynghorydd i'r Grŵp Llywio), Jonathan Monk (Grŵp Porthladdoedd Cymru, Becky Phillips (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur) | | | | |
| **Telegynadledda** | Michel Regelous (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Eve Read (Dŵr Cymru) | | | | |
| **Ymddiheuriadau** | Hannah Carr (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur), Rosie Kelly (Ystad y Goron), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) | | | | |

| Rhif | Eitem Agenda |
|---|---|
| 1 | Croeso, cyflwyniadau, cadw tŷ |
| 2 | Cynllun Gweithredu ar gyfer y Rhwydwaith 2018–2019:<br>• Adolygu a chytuno ar y Cynllun Gweithredu terfynol ar gyfer 2018–19<br>• Ystyried a chytuno ar glystyrau/themâu ar gyfer Cynllun Gweithredu 2018–19<br>• Gweithredu a'r cwmpas ar gyfer cyflawni<br>• Y broses ar gyfer cynnal cysylltiadau â chamau gweithredu lleol |
| 3 | Unrhyw faterion arall |

## Cyflwyniad

Mae'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAMSG) yn darparu cydlynu strategol ar gyfer rheoli'r holl Ardaloedd Morol Gwarchodedig ym moroedd Cymru. Mae'r Grŵp yn darparu cyngor, canllawiau ac arweiniad cyfunol i'r awdurdodau sy'n rhan o'r gwaith o weithredu i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'n hyrwyddo'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn effeithiol, ac mae wedi derbyn y dasg o godi proffil y gwaith o reoli'r ardaloedd a chynyddu cefnogaeth awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid ehangach ledled Nghymru.

Mae aelodau'r MPAMSG yn dod o'r prif awdurdodau rheoli yng Nghymru, fel y'u diffinnir gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Cynhaliodd y Grŵp Llywio ei 12fed cyfarfod ar 2 Gorffennaf 2018 yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth. Mae prif negeseuon a chamau gweithredu'r cyfarfod yn y ddogfen hon. Mae aelodau'r MPAMSG yn gyfrifol am rannu negeseuon cyson â'u gwahanol rwydweithiau.

Os ydych am drafod unrhyw rhai o'r eitemau sydd ar yr agenda'n fanylach, cysylltwch â'ch arweinydd sector.  Os oes angen manylion eich arweinydd sector arnoch, cysylltwch â'r blwch negeseuon e-bost Gweinidogion ar gyfer y Môr a Physgodfeydd. (MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales)

## Prif Negeseuon a Chamau Gweithredu

Eitem 2:Cynllun Gweithredu ar gyfer y Rhwydwaith 2018–2019

| Prif negeseuon | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Gwnaeth aelodau'r Grŵp Llywio adolygu a chytuno ar y Cynllun Gweithredu terfynol ar gyfer 2018–19, ac mae bellach angen iddo gael ei gymeradwyo gan yr awdurdodau rheoli sy'n cael eu cynrychioli gan y Grŵp Llywio. Yn ystod y cyfarfod cadarnhaodd Eve ar lafar fod Dŵr Cymru yn fodlon cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu.<br><br>Cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio y byddai'n well cadw'r 21 cam gweithredu yn nhrefn eu blaenoriaeth ar y rhestru, yn hytrach na rhoi camau gweithredu mewn clystyrau.<br><br>Mae awdurdodau rheoli wedi cael eu nodi i fod yn gyfrifol am gyflawni pob cam gweithredu. Mae cyllid eisoes ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o'r camau gweithredu â blaenoriaeth. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer camau gweithredu lle y nodwyd diffyg cyllid.<br><br>Cytunodd Alison i drafod anghenion adrodd â swyddogion ACA eraill i gynnal y cyswllt â'r Cynllun Gweithredu, ac i drafod prosiectau posibl i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019–20. | Bydd aelodau'r Grŵp Llywio yn cadarnhau cymeradwyaeth y sector erbyn 27 Gorffennaf.<br><br>Bydd APH yn trafod gofynion adrodd a phrosiectau yn y dyfodol ar gyfer y Cynllun Gweithredu â swyddogion ACA. |

Eitem 3:Eitemau i'w nodi, unrhyw faterion eraill a dyddiad y cyfarfod nesaf

| Prif Negeseuon | Camau gweithredu |
|---|---|
| Nid oedd unrhyw eitemau i'w nodi ac nid oedd unrhyw faterion eraill. Cytunodd y Grŵp Llywio i gwrdd unwaith eto ddiwedd Medi/dechrau mis Hydref. | Bydd RLJ yn dosbarthu DoodlePoll ar gyfer y cyfarfod nesaf. |